



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Addysg a Gwella Iechyd  
Cymru (AaGIC)  
Health Education and  
Improvement Wales (HEIW)

Diweddariad misol yw hwn i bartneriaid a rhanddeiliaid ar ddatblygiad Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) gan ei Brif Weithredwr, Alex Howells.

**Helpwch ni i ledaenu'r neges am Addysg a Gwella Iechyd Cymru drwy gylchredeg y bwletinau hyn i'r holl staff.**

**Rydym yn Fyw!**

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru bellach ar agor i fusnes. Diolch i bawb ohonoch am eich cefnogaeth dros y 12 mis diwethaf; mae'n wych ein bod bellach yn weithredol, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi yn y dyfodol.



## Digwyddiad Lansio

Cawsom gefnogaeth fawr i'n digwyddiad lansio a gynhaliwyd ar 24 Medi ac roedd diddordeb mawr ynddo, gyda thua 300 o bobl o sefydliadau partner a 150 o staff yn bresennol. Rhan bwysig o'r digwyddiad oedd dathlu'r hyn y mae'r sefydliadau gwaddol eisoes yn ei wneud - gan arddangos arferion da ac arloesedd.

Mynychodd Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru, i roi un o'r prif areithiau, a hoffem gofnodi ein diolch yn ffurfiol iddo am yr arweiniad a'r cyfarwyddyd a roddodd fel Uwch-Berchennog Cyfrifol Rhaglen AaGIC drwy gydol ei datblygiad.

## Sut i Gysylltu â Ni

Rydym wedi dechrau symud i'n cyfleusterau newydd yn Nhŷ Dysgu, Nantgarw - mae'r adeilad hwn bellach yn gartref i'r Tîm Gweithredol a'r staff sydd wedi trosglwyddo i'r sefydliad newydd o Ddeoniaeth Cymru a Chanolfan Addysg Fferylliaeth Broffesiynol Cymru.

Ymddiheurwn os bydd unrhyw amharu ar fusnes arferol yr wythnos hon - mae'r holl systemau yn newydd sbon ac yn anochel, bydd rhai problemau cychwynnol yn codi.

Bydd y gwaith o adnewyddu'r adeilad yn parhau dros y misoedd nesaf, a bydd staff o Wasanaeth y Gweithlu, Addysg a Datblygu yn ymuno â ni ym mis Ionawr pan fydd yr adeilad yn gwbl weithredol.

Ein manylion cyswllt yw:

*Addysg a Gwella Iechyd Cymru*

*Tŷ Dysgu*

*Cefn Coed*

*Nantgarw*

*CF15 7QQ*

*Ffôn: 03300 585 005*

*E-bost: [heiw@wales.nhs.uk](mailto:heiw@wales.nhs.uk)*

## Gohebiaeth

Mae cyfrif Twitter AaGIC yn parhau i dyfu ac mae wedi denu dros 1,000 o ddilynwyr mewn dim ond ychydig wythnosau. Diolch i bawb sydd wedi cefnogi'r dull cyfathrebu dwy ffordd hwn drwy ein dilyn, aildrydar a gwneud sylwadau.

Rydym yn arbennig o falch o weld gweithwyr proffesiynol gofal iechyd o bob cwr o Gymru eisoes yn defnyddio'r llwyfan

i drafod materion yn ymwneud â'r gweithlu ac i rannu barn. Bydd hwn yn arf hanfodol yn ein cynllun ymgysylltu yn y dyfodol.

Mae gwefan AaGIC yn waith ar y gweill gan fod gennym gyfoeth o wybodaeth a systemau pwrpasol sy'n dod o'r tri sefydliad gwaddol.

Ar hyn o bryd, mae ein gwybodaeth gorfforaethol ar gael yn [aagic.gig.cymru](http://aagic.gig.cymru) ac [heiw.nhs.wales](http://heiw.nhs.wales), gyda dolenni o'r hafan i'r tri sefydliad gwaddol.

Maes o law, ein nod yw dod â'r holl wybodaeth a systemau at ei gilydd ar un wefan, ond bydd hyn yn cymryd peth amser.

## **Bwrdd AaGIC**

Mae ein Bwrdd bellach yn gyflawn o ran ei aelodaeth ac mae'n cynnwys y bobl ganlynol:

Dr CDV Jones, Cadeirydd	Alex Howells, Prif Weithredwr
John Hill Tout, Aelod Annibynnol	Julie Rogers, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol/Dirprwy Brif Weithredwr
Tina Donnelly, Aelod Annibynnol	Stephen Griffiths, Cyfarwyddwr Nyrsio
Dr Ruth Hall, Aelod Annibynnol	Danielle Neale, Cyfarwyddwr Cyllid
Gill Lewis, Aelod Annibynnol	Yr Athro Pushpinder Mangat, Cyfarwyddwr Meddygol
Dr Heidi Phillips, Aelod Annibynnol	Dafydd Bebb, Ysgrifennydd y Bwrdd
Ceri Phillips, Aelod Annibynnol	

Bydd y Bwrdd yn cynnal ei gyfarfod ffurfiol cyntaf ar 2 Hydref. Fel sefydliad Cymru gyfan, rydym yn awyddus i gynnal ein cyfarfodydd mewn gwahanol leoliadau a manteisio ar y cyfle i gwrdd â phartneriaid a staff lleol ar yr un pryd.

Rhowch wybod i ni os oes unrhyw leoliadau penodol yr hoffech i ni ymweld â nhw - ac os gallwch awgrymu lleoliadau i ni gynnal ein cyfarfod hefyd, yna gwell fyth!

## **Buddsoddi mewn E-Adnoddau**

Fel y cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet yn y digwyddiad lansio, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros £3 miliwn i ehangu mynediad i ystod o e-adnoddau ar gyfer holl staff GIG Cymru.

Mae hyn yn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael i staff a dysgwyr Prifysgol Caerdydd yn parhau i fod ar gael i staff a dysgwyr o dan y trefniadau newydd - gyda'r fantais o gynnwys gweddill gweithlu GIG Cymru.

Mae hwn yn offeryn ardderchog ar gyfer datblygu amgylchedd dysgu yn GIG Cymru a fydd ar gael yn gyfleus.

## **Digwyddiad yng Nghanolbarth Cymru**

Cawsom weithdy cynhyrchiol iawn yn Llanfair-ym-Muallt yn gynharach ym mis Medi, a gynhaliwyd gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ond a oedd yn cynnwys cydweithwyr o wahanol sectorau a sefydliadau ar draws canolbarth Cymru. Pwrpas y sesiwn oedd deall anghenion penodol canolbarth Cymru a chymunedau gwledig yn arbennig.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar yr angen am fwy o fynediad lleol i hyfforddiant ac addysg, gwerth modelau prentisiaeth, yr angen i gynyddu ein hymdrechion i ddatblygu ein gweithlu presennol, a'r cyfle i adeiladu gwydnwch cymunedol drwy gydweithio'n agos â phobl leol, cymunedau a sefydliadau'r trydydd sector.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chydweithwyr ar gynllun i fwrw ymlaen â hyn.

## Recriwtio

Rydym yn parhau i recriwtio i nifer o rolau allweddol yn y sefydliad newydd a byddem yn gwerthfawrogi'n fawr pe gallech ein helpu gyda hyn drwy gylchredeg y bwletin hwn mor eang â phosibl.

Mae rolau Cyfarwyddwr Cynorthwyol Arweinyddiaeth ac Olyniaeth, Rheolwr Datblygu Sefydliadol a Dysgu, a Swyddog Gwybodaeth y Gweithlu i gyd yn fyw ar wefan NHS Jobs.

Bydd hysbysebion newydd ym mis Hydref yn cynnwys Cyfarwyddwr Rhaglen Meddygon Teulu, Swyddog Hyfforddi Meddygon Teulu, Rheolwr Swyddfa, Rheolwr Cefnogi Llywodraethu, Swyddog Cymorth y Gymraeg/Llywodraethu, Pennaeth Comisiynu Addysg ac Ansawdd.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus.



Cymraeg



English



Cymraeg



English

*Alex Howells*

Hawlfraint y Llywodraeth Cymru / GIG Cymru

*Prif Weithredwr Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)*